



Cyfansoddiad Yr Academi Gymreig

Cymeradwywyd: 25/04/2015

Rhan 1

1. Mabwysiadu'r Cyfansoddiad

Mi fydd yr Academi Gymreig a'i eiddo yn cael ei weinyddu a'i reoli yn gyson â'r gosodiadau a geir yn Rhan 1 a 2 o'r cyfansoddiad hwn.

2. Enw

Enw'r gymdeithas yw'r Academi Gymreig.

3. Amcanion

Yr Academi Gymreig yw'r gymdeithas genedlaethol i awduron yng Nghymru ac mae'n darparu cymuned, llais cyfunol a chymorth i awduron. Mae'n gymdeithas aelodaeth annibynnol a chaiff ei weinyddu trwy gydweithio â Llenyddiaeth Cymru.

Nodyn o adnabyddiaeth o gyrhaeddiad awdur gan gyfoedion yw aelodaeth o'r Academi Gymreig. Cynigir aelodaeth Cymrawd i nifer o dethol o aelodau sydd wedi gwireddu cyfraniad eithriadol i ddiwylliant llenyddol Cymru. Anogir aelodau a chymrodorion i gefnogi datblygiad awduron newydd a chreu amgylchedd lle gallant ffynni.

Dyma amcanion yr Academi Gymreig.

- Gwasanaethu diddordebau awduron ag ysgrifennu o Gymru.
- Darparu fforwm cymdeithasol a llais cyfunol i awduron Cymru.
- Gweithio â Llenyddiaeth Cymru i ddatblygu ysgrifennu yng Nghymru trwy wasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau'r Academi Gymreig.
- Dathlu llenyddiaeth yng Nghymru.

4. Perthynas â Llenyddiaeth Cymru

- (1) Mae'r Academi Gymreig yn gymdeithas annibynnol. Mae felly ar wahân i Lenyddiaeth Cymru yn ei gyfansoddiad a'i benderfyniadau.
- (2) Cefnogir yr Academi Gymreig yn weinyddol gan Lenyddiaeth Cymru.
- (3) Gall Bwrddyr Academi Gymreig gyflwyno materion i'w ystyried i Fwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru.
- (4) Gall Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru gyflwyno materion i'w ystyried i Bwyllgor yr Academi Gymreig.

5. Defnyddio incwm ac eiddo

- (1) Defnyddir incwm ac eiddo'r Academi Gymreig dim ond er mwyn hybu'r Amcanion.
 - a) Mae hawl gan aelod o'r Bwrddi gael ei ad-dalu o eiddo'r Academi Gymreig neu gall dalu o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol a dalwyd yn briodol wrth iddo neu iddi weithredu ar ran yr Academi Gymreig.
- (2) Ni fydd unrhyw incwm neu eiddo'r Academi Gymreig yn cael ei dalu neu ei drosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfrwng bonws, difidend neu fel arall drwy gyfrwng elw i unrhyw aelod o'r Academi Gymreig.

Nid yw hyn yn gwahardd aelod o'r Bwrddrhag derbyn taliad rhesymol a phriodol am nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i'r Academi Gymreig.

6. Buddion a thaliadau i gyfarwyddwyr Academi Gymreig ac unigolion cysylltiedig

- (1) Darpariaethau cyffredinol

Ni all unrhyw Aelod o'r Bwrddneu unigolyn cysylltiedig:

- a) prynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr Academi Gymreig ar delerau sy'n well na'r rhai sy'n gymwys i aelodau'r cyhoedd;
- b) cael ei gyflogi gan yr Academi Gymreig, neu dderbyn unrhyw dâl gan yr Academi Gymreig;
- c) cael unrhyw fudd ariannol arall gan yr Academi Gymreig;

oni bai bod y taliad wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r erthygl hon, neu wedi'i awdurdodi gan Bwyllgor yr Academi Gymreig.

(2) Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion aelodau'r Bwrddneu unigolion cysylltiedig

- a) Gall aelod o'r Bwrddneu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd o'r Academi Gymreig yn rhinwedd buddiolwr yr Academi Gymreig ar yr amod nad yw'r mwyafrif o aelodau'r Bwrddyn cael budd yn y modd hwn.
- b) Yn amodol ar is-gymal (3) yr erthygl hon gall aelod o'r Bwrddneu unigolyn cysylltiedig roi nwyddau i'r Academi Gymreig.
- c) Gall aelod o'r Bwrddneu unigolyn cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthyciwyd i'r Academi Gymreig ar gyfradd resymol a phriodol sydd ddim yn fwy na chyfradd banc Banc Lloegr (y gyfradd sylfaenol (*base rate*)).
- d) Gall aelod o'r Bwrddneu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn masnachu a gweithgareddau codi arian arferol yr Academi Gymreig ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

(3) Taliadau am gyflenwi nwyddau yn unig - rheolaethau

Gall yr Academi Gymreig ac aelodau'r Bwrddddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir gan is-gymal 2 (b) o'r erthygl hon dim ond os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

- (a) Mae swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau wedi'i bennu mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr Academi Gymreig a'r aelod Bwrddneu'r unigolion cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ("y cyflenwr") ac o dan y cytundeb bydd y cyflenwr yn cyflenwi'r nwyddau dan sylw i'r Academi Gymreig neu ar ei rhan.
- (b) Nid yw swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.
- (c) Mae'r aelodau Bwrdderaill yn fodlon ei fod er lles gorau'r Academi Gymreig i arwyddo contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na rhywun sydd heb fod yn aelod Bwrddneu'n unigolyn cysylltiedig. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r aelod o'r Bwrddgydbwyso manteision arwyddo contract gydag aelodau Bwrddneu unigolion cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hyn.
- (d) Mae'r cyflenwr yn absennol o ran o unrhyw gyfarfod sy'n trafod y cynnig i arwyddo contract neu drefniadau ag ef neu hi neu mewn perthynas â chyflenwi nwyddau i'r Academi Gymreig.

- (e) Nid yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nid yw'n cael ei gyfrif wrth gyfrifo a yw cworwm o aelodau Bwrddyn bresennol yn y cyfarfod.
- (f) Mae'r rheswm dros eu penderfyniad yn cael ei gofnodi gan Bwyllgor yr Academi Gymreig yn y llyfr cofnodion.
- (g) Nid yw mwyafrif o'r cyfarwyddwyr sydd yn eu swyddi yn derbyn tâl neu daliadau wedi'u hawdurdodi gan erthygl 6.

7. Diddymu

- (1) Os mae'r aelodau yn cytuno i ddiddymu'r Academi Gymreig, mi fydd aelodau'r Bwrddyn parhau yn eu swyddi ac yn gyfrifol am ddirwyn materion yr Academi Gymreig i ben yn gyson â'r cymal hwn.
- (2) Rhaid i aelodau'r Bwrddgasglu holl asedion yr Academi Gymreig a thalu neu gynnig darpariaeth i gwrdd â holl rywmedigaethau'r Academi Gymreig.
- (3) Rhaid i aelodau'r Bwrddgynnig unrhyw eiddo neu arian sydd yn weddill:
 - (a) yn uniongyrchol ar gyfer yr Amcanion;
 - (b) trwy eu trosglwyddo i unrhyw sefydliad neu sefydliadau at ddibenion sydd yr un fath neu sy'n debyg i'r Academi Gymreig;
 - (c) gall yr aelodau ar unrhyw adeg cyn, ac wrth ddisgwyl ei diddymiad, gytuno penderfyniad i ddisgrifio'r modd y bydd aelodau'r Bwrddyn gweithredu'r eiddo neu asedion yr Academi Gymreig sydd ar ôl ac mae'n orfodol bod hyn yn cydymffurfio â'r penderfyniad os mae'n gyson â pharagraffau (a) - (c) sy'n gynwysedig yn is-gymal (3) uchod.
- (4) Mewn unrhyw achos ni fydd asedau net yr Academi Gymreig yn cael eu talu neu eu dosbarthu ymhlith yr aelodau.

8. Newidiadau i'r Cyfansoddiad

- (1) Gall yr Academi Gymreig newid unrhyw osodiad a geir yn Rhan 1 o'r cyfansoddiad hwn os, a bod:
 - (a) ni ellir gweithredu unrhyw osodiad i newid yr amcanion os bydd y newid yn tanseilio neu yn gwrthdaro ag amcanion cynt yr Academi Gymreig;
 - (b) unrhyw gynnig i newid gosodiad yn Rhan 1 o'r cyfansoddiad hwn yn cael ei gytuno gan ddim llai na dwy ran o dair o'r aelodau Bwrddsydd yn bresennol ac yn pleidleisio yng nghyfarfod Bwrddyr aelodau.

- (2) Gall unrhyw osodiad sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 o'r cyfansoddiad gael ei addasu os, a bod unrhyw addasiad yn cael ei gytuno gan gynnig a gytunit gan fwyafrif syml o'r aelodau Bwrddsydd yn bresennol ac sy'n pleidleisio o fewn cyfarfod y Bwrdd Rheoli.

Rhan 2

9. Aelodaeth

- (1) Mae aelodaeth o'r Academi Gymreig yn agored i unigolion 18 oed neu'n hŷn sydd wedi'u cymeradwyo gan aelodau'r Pwyllgor.
- (a) Gall aelodau'r Bwrddwrthod aelodaeth os, trwy weithredu'n rhesymol ac yn briodol, maent yn ystyried ei fod yn niddordebau gorau'r Academi Gymreig i wrthod y cais.
- (2) Ni all aelodaeth gael ei drosglwyddo i unrhyw arall.
- (3) Rhaid i'r Academi Gymreig gadw cofnod o enwau a chyfeiriadau ei aelodau.

10. Terfyniad Aelodaeth

Caiff aelodaeth ei derfynu os:

- (1) mae'r aelod yn marw;
- (2) mae'r aelod yn ymddiswyddo trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Academi Gymreig;
- (3) na delir yn llawn unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Academi Gymreig gan yr aelod o fewn chwe mis o bryd mae'n daliadwy;
- (4) mae'r aelod yn cael ei ddiddymu o'r aelodaeth gan gynnig gan Bwyllgor Aelodaeth yr Academi Gymreig ei fod yn niddordebau gorau'r Academi Gymreig bod ei aelodaeth ef neu hi yn cael ei derfynu. Gall cynnig i ddiddymu aelod o'i aelodaeth ond gael ei gytuno os:
- (a) mae'r aelod wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o o leiaf un ar hugain diwrnod o'r cyfarfod Pwyllgor Aelodaeth lle gynigir y cynnig a'r rhesymau pam mae yn cael ei gynnig;
- (b) mae'r aelod neu, yn unol â dewis yr aelod, ei gynrychiolydd (nid yw'n angenrheidiol ei bod yn aelod o'r Academi Gymreig), wedi cael cyfle i gynnig ei gynrychioliad yn y cyfarfod.

11. Cyfarfod Bwrdd Rheoli

- (1) Mi fydd yr Academi Gymreig yn cynnal dau gyfarfod Bwrdd Rheoli'r flwyddyn;
- (2) Gall aelodau'r Bwrdd Rheoli alw cyfarfod y Bwrdd Rheoli ar unrhyw adeg;
- (3) Rhaid cynnal cyfarfod Bwrdd Rheoli os mae cais yn cael ei gyflwyno gan gworwm o aelodau'r Bwrdd Rheoli. Rhaid i'r cais ddatgan natur y busnes i'w drafod. Rhaid cynnal y cyfarfod o fewn wyth ar hugain o ddiwrnodau wedi derbyn y cais.

12. Rhybudd

- (1) Y cyfnod lleiaf o rybudd sy'n ofynnol i gynnal cyfarfod y Bwrdd Rheoli yw deg diwrnod gwaith o'r dyddiad yr ystyrir bod y rhybudd wedi ei gynnig.
- (2) Gall cyfarfod y Bwrdd Rheoli gael ei alw a llai o rybudd os gytunir hyn gan yr holl aelodau sydd a'r hawl i fod yn bresennol ac i bleidleisio.
- (3) Rhaid i'r rhybudd nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a natur cyffredinol y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r cyfarfod yn gyfarfod cyffredinol blyneddol, rhaid i'r rhybudd nodi hynny.
- (4) Rhaid rhoi'r rhybudd i holl aelodau Bwrdd Rheoli'r Academi Gymreig.

13. Cworwm

- (1) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai bod cworwm yn bresennol.
- (2) Cworwm yw:
 - (a) 5 o aelodau sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio ar y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod;
 - (b) Trydydd o gyfanswm aelodaeth y Bwrdd Rheoli sydd â'r hawl i bleidleisio ar y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod.
Pa un bynnag yw'r mwyaf.
- (3) Os:
 - (a) nad yw'r cworwm yn bresennol cyn pen hanner awr o'r amser a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod; neu
 - (b) mae cworwm yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod;

caiff y cyfarfod ei ohirio a bydd y cyfarwyddwr yn pennu amser a lleoliad arall ar gyfer y cyfarfod.

- (4) Rhaid i aelodau'r Bwrddailgynnull y cyfarfod a rhaid iddynt roi o leiaf saith diwrnod clir o rybudd ar gyfer y cyfarfod a ailgynnullwyd gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.
- (5) Os nad yw cworwm yn bresennol yn y cyfarfod a ailgynnullwyd cyn pen pymtheg munud o'r amser a drefnwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ffurfio cworwm ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

14. Cadair

- (1) Caiff cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli eu cadeirio gan y person sydd wedi ei ethol yn Gadair.
- (2) Mi fydd y Bwrdd Rheoli yn ethol Is-Gadair yn ogystal.
- (3) Mae'n ofynnol bod innau'r Gadair neu'r Is Gadair yn gallu siarad Cymraeg.
- (4) Mi fydd yr Is-Gadair yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli os mae'r Gadair yn absennol.
- (5) Os nad yw'r Gadair neu'r Is-Gadair yn bresennol o fewn 15 munud i'r amser a benodwyd ar gyfer y cyfarfod gall aelod o'r Pwyllgor, sydd wedi'i enwebu gan aelodau'r Pwyllgor, gadeirio'r cyfarfod.

15. Gohiriadau

- (1) Gall aelodau'r Bwrddsy'n bresennol yn y cyfarfod benderfynu i ohirio'r cyfarfod.
- (2) Rhaid i'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod benderfynu dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer ailgynnull y cyfarfod oni bai bod y manylion hynny wedi'u pennu yn y penderfyniad.
- (3) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod a ailgynnullwyd oni bai y byddai modd ei drafod yn briodol yn y cyfarfod os nad oedd wedi cael ei ohirio.
- (4) Os yw cyfarfod yn cael ei ohirio gan benderfyniad yr aelodau am fwy na saith diwrnod, bydd rhybudd o saith diwrnod clir o leiaf yn cael ei roi ar gyfer y cyfarfod a ailgynnullwyd gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

16. Pleidleisiau

- (1) Caiff pob aelod un bleidlais ond os ceir bleidlais gyfartal caiff y person sy'n cadeirio'r cyfarfod y bleidlais fwrw yn ogystal ag unrhyw bleidlais arall y mae ef neu hi yn ei feddu.
- (2) Mi fydd gosodiad ysgrifenedig sydd wedi ei arwyddo gan bob aelod a fyddai wedi meddu'r hawl i bleidleisio arno os oedd wedi ei gyflwyno o fewn cyfarfod cyffredinol yn effeithiol.

17. Aelodau'r Bwrdd Rheoli

- (1) Rheolir yr Academi Gymreig gan y Bwrdd Rheoli.
- (2) Bydd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu'r Academi Gymreig:
 - (a) cadair;
 - (b) is gadair.
- (3) Rhaid i aelod o'r Bwrdd Rheoli fod yn aelod o'r Academi Gymreig.
- (4) Ni all unrhyw un gael ei apwyntio yn aelod o'r Bwrdd Rheoli os byddai ef neu hi wedi ei wahardd rhag gweithredu gan osodiadau cymal 21.
- (5) Mi fydd y nifer o aelodau'r Bwrdd Rheoli yn llai na phump nag yn fwy na pymtheg - mae'n ofynnol bod o leiaf pump gallu gweithredu eu dyletswyddau yn y Gymraeg.
- (6) Ni all aelod o'r Bwrdd Rheoli apwyntio unrhyw un i weithredu fel dirprwy ar ei ran.

18. Apwyntio Aelodau y Bwrdd Rheoli

- (1) Gall aelodau gael eu hapwyntio gan y Bwrdd Rheoli trwy gyfathrebiadau electroneg;
- (2) Yn arferol mi fydd aelodau yn cael gwasanaethu am fwyafswm o bum mlynedd;
- (3) Serch hynny, os oes angen arbenigedd a phrofiad o fewn amgylchiadau anarferol, gall y Bwrdd Rheoli gynnig estyniad o ddwy flynedd;
- (4) Ni all y nifer o aelodau'r Bwrdd Rheoli fod yn fwy na'r nifer a bennwyd yn y cyfansoddiad o ganlyniad i apwyntio aelodau i'r Bwrdd Rheoli.

19. Pwerau y Bwrdd Rheoli

- (1) Rhaid i'r Bwrdd Rheoli reoli busnes yr Academi Gymreig ac maent â'r pwerau canlynol i hybu'r amcanion (ond dim am unrhyw bwrpas arall):
 - (a) Codi arian. Wrth wneud hynny, ni all y Bwrdd Rheoli ymgymryd ag unrhyw weithgaredd masnachu parhaol trethadwy a rhaid iddi gydymffurfio ag unrhyw reoliadau statudol perthnasol;
 - (b) Sefydlu a chefnogi ymddiriedolaethau elusennol, cymdeithasau neu sefydliadau a ffurfir i gefnogi amcanion yr Academi Gymreig;
 - (c) Caffael, uno neu lunio unrhyw bartneriaeth neu gyd-fenter ag unrhyw sefydliad sydd yn rhannu amcanion yr Academi Gymreig;
 - (d) Neilltuo incwm fel cronfa wrth gefn yn erbyn gwariant yn y dyfodol ond dim ond yn unol â pholisi ysgrifenedig ar gronfeydd wrth gefn;
 - (e) Meddiannu a thalu am unrhyw nwyddau neu wasanaethau sydd yn angenrheidiol i weithredu gwaith yr Academi Gymreig;
 - (f) Agor a gweithredu cyfrif banc ac unrhyw gyfrifon eraill a ystyrier yn angenrheidiol gan y Bwrdd Rheoli ac i fuddsoddi'r cyllid ac i ddirprwyo rheolaeth y cyllid;
 - (g) I weithredu'r holl weithgareddau cyfreithlon sy'n angenrheidiol i wireddu'r amcanion.
- (2) Ni fydd unrhyw newid i'r erthyglau neu unrhyw benderfyniad arbennig yn cael effaith ôl-weithredol i annilysu unrhyw weithred flaenorol gan y Bwrdd Rheoli.
- (3) Gall unrhyw gyfarfod y Bwrdd Rheoli lle mae cworwm yn bresennol pan gaiff y penderfyniad perthnasol ei wneud ymarfer yr holl bwerau gall y Bwrdd Rheoli eu hymarfer.

20. Anghymhwyso a diswyddo cyfarwyddwyr

Bydd cyfarwyddwr yn peidio â dal y swydd os yw:

- (1) yn peidio â bod yn aelod o'r Academi Gymreig;
- (2) ym marn ysgrifenedig ymarferydd meddygol sydd yn trin yr unigolyn, a ddarparwyd i'r Academi Gymreig, yn analluog yn ffisegol neu yn feddyliol o weithredu fel aelod o'r Bwrdd Rheoli a bydd hyn yn parhau am fwy na tri mis;

- (3) yn ymddiswyddo fel aelod o'r Bwrdd Rheoli trwy roi hysbysiad i'r Academi Gymreig; neu
- (4) yn absennol heb ganiatâd y Bwrdd Rheoli o bob un o'u cyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o flwyddyn neu heb ymwneud â'r cyfathrebiadau electroneg am gyfnod o chew mis, ac mae'r Bwrdd Rheoli yn penderfynu y dylai ei swydd fod yn wag.

21. Gweithrediadau'r Bwrdd Rheoli

- (1) Gall y Bwrdd Rheoli reoleiddio eu gweithrediadau fel y gwela yn dda, yn amodol ar ddarpariaethau'r cyfansoddiad.
- (2) Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli alw cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli.
- (3) Rhaid i'r Gadair a/neu'r Is Gadair alw cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli os mae aelod yn gofyn iddo/iddi wneud hynny.
- (4) Bydd cwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y pleidleisiau.
- (5) Mewn achosion lle mae'r bleidlais yn gyfartal mi fydd y person sy'n cadeirio'r cyfarfod yn meddu ar y bleidlais fwrw.
- (6) Ni all unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan gyfarfod o'r Bwrdd Rheoli heblaw bod cworwm yn bresennol pan mae'r penderfyniad yn cael ei wneud. Yn arferol, 10 diwrnod yw'r cyfnod amser i bennu pleidlais trwy fodd electroneg. Mi fydd diffyg ymateb trwy gyfathrebiad electroneg yn cael ei ystyried yn yr un modd ag in absentia.
- (7) Bydd y cworwm yn bump neu'r nifer agosaf at un rhan o dair o gyfanswm aelodaeth y Bwrdd Rheoli, p'un bynnag yw'r mwyaf.
- (8) Ni fydd aelod o'r Bwrdd Rheoli yn cael ei gyfrif yn y cworwm sy'n bresennol pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud am fater nad oes hawl gan yr aelod hwnnw o'r Bwrdd Rheoli bleidleisio arno.
- (9) Os yw nifer yr aelodau o'r Bwrdd Rheoli yn llai na'r nifer a bennwyd fel y cworwm, gall y Bwrdd Rheoli weithredu dim ond i'r pwrpas o lenwi swyddi gwag neu alw cyfarfod cyffredinol.
- (10) Ni fydd gan y sawl a benodir i gadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli unrhyw swyddogaethau neu bwerau ac eithrio'r rhai a roddir gan y cyfansoddiad hwn neu a ddirprwyir iddo yn ysgrifenedig gan y Bwrdd Rheoli.

22. Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch

Rhaid i aelod o'r Pwyllgor:

- (1) ddatgan natur a graddfa unrhyw fudd boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd ganddo neu ganddi mewn trafodiad neu drefn arfaethedig â'r Academi Gymreig neu mewn unrhyw drafodiad neu drefn a lofnodwyd gan yr Academi Gymreig oedd heb gael ei ddatgan cyn hyn.; a
- (2) bod yn absennol o unrhyw drafodaethau Bwrdd Rheoli'r Academi Gymreig lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro yn codi rhwng ei ddyletswydd i weithredu er lles yr Academi Gymreig yn unig ac unrhyw fudd personol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw fudd ariannol personol).

Ni all unrhyw aelod o'r Bwrddsydd wedi absenoli ei hun o'r trafodaethau yn gyson a'r cymal hwn bleidleisio neu gael ei gyfrif fel rhan o gworwm ar gyfer unrhyw benderfyniad a wneir gan yr Academi Gymreig ar y mater.

25. Anghysondebau Trefnaidol

- (1) Yn amodol ar is gymal (2) y cymal hwn, bydd holl weithrediadau cyfarfod aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ddilys heblaw bod yr aelodau o'r Bwrdd Rheoli sydd wedi cymryd rhan mewn pleidlais:
 - (a) wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd;
 - (b) wedi ymddiswyddo yn flaenorol neu yr oedd yn ofynnol iddo adael y swydd yn ôl y cyfansoddiad;
 - (c) heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais a heb:

 - (d) ystyried pleidlais yr aelod o'r Bwrdd Rheoli hwnnw; a
 - (e) cyfrif yr aelod o'r Bwrdd Rheoli hwnnw yn y cworwm;

mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud gan y mwyafrif o'r aelodau o'r Bwrdd Rheoli mewn cyfarfod sydd â chworwm.
- (2) Nid yw is gymal (1) y cymal hwn yn caniatáu i aelod o'r Bwrdd Rheoli gadw unrhyw fudd y gall unrhyw benderfyniad y Bwrdd Rheoli ei roi iddo neu iddi os fel arall byddai'r penderfyniad wedi bod yn annilys.
- (3) Ni fydd unrhyw benderfyniad neu weithred gan
 - (a) y Bwrdd Rheoli
 - (b) unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd Rheoli

yn cael ei annilysu oherwydd nid oedd aelod o'r Bwrdd Rheoli a oedd â hawl i gael rhybudd wedi derbyn rhybudd o ganlyniad i fethiant gweithredol yn y cyfarfod heblaw gellir dangos bod y methiant wedi ei niweidio hwy neu fuddiannau'r Academi Gymreig yn faterol.

26. Cofnodion

Rhaid i'r Bwrdd Rheoli gadw cofnodion o:

- (1) benodiadau aelodau Bwrdd Rheoli a wneir gan y Bwrdd Rheoli;
- (2) gweithgarwch cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli gan gynnwys:
 - (a) enwau aelodau'r Bwrdd Rheoli sy'n bresennol yn y cyfarfod;
 - (b) y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y cyfarfod; a lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau.

27. Hysbysiadau

- (1) Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol, yn gyson â'r cyfansoddiad hwn, i'w roi i unrhyw unigolion neu gan unrhyw unigolion:
 - (a) fod yn ysgrifenedig; neu
 - (b) yn cael ei roi mewn ffurf electronig.
- (2) Gall Bwrdd Rheoli'r Academi Gymreig gynnig hysbysiad i aelod:
 - (a) yn bersonol; neu
 - (b) trwy ei anfon trwy'r post mewn amlen ragdaledig wedi'i chyfeirio at yr aelod yn ei gyfeiriad; neu
 - (c) trwy ei adael yng nghyfeiriad yr aelod; neu
 - (d) trwy ei roi mewn ffurf electroneg i gyfeiriad yr aelod;
- (3) Ni fydd hawl gan aelod nad yw'n cofrestru cyfeiriad gyda'r Academi Gymreig neu sy'n cofrestru cyfeiriad post yn unig nad yw o fewn y Deyrnas Unedig dderbyn hysbysiad.
- (4) Ystyrir y bydd aelod sy'n bresennol yn bersonol mewn unrhyw gyfarfod yr Academi Gymreig wedi cael hysbysiad o'r cyfarfod ac i ba bwrpas y galwyd y cyfarfod.
- (5)
 - (a) bydd prawf bod amlen sy'n cynnwys hysbysiad wedi cael ei chyfeirio'n briodol, yn ragdaledig ac wedi'i phostio yn dystiolaeth derfynol bod hysbysiad wedi'i roi.

- (b) bydd prawf bod ffurf o hysbysiad electronig wedi cael ei rhoi yn derfynol os gall y cwmni ddangos ei fod wedi cael ei gyfeirio a'i anfon yn briodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir gan Athrofa'r Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig.
- (c) bydd hysbysiad wedi'i roi 48 awr ar ôl i'r amlen a oedd yn ei gynnwys cael ei phostio; neu yn achos ffurf electronig o gyfathrebu, 48 awr ar ôl iddo gael ei hanfon.

28. Rheolau

- (1) Gall aelodau'r Bwrdd Rheoli, o bryd i'w gilydd, lunio rheolau neu is-ddeddfau ar gyfer cynnal eu busnes.
- (2) Gall yr is-ddeddfau reoleiddio'r materion canlynol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:
 - (a) derbyn aelodau i'r Academi Gymreig a hawliau a breintiau aelodau o'r fath, a'r ffioedd aelodaeth, tanysgrifiadau a ffioedd neu daliadau eraill y bydd yr aelodau yn eu talu;
 - (b) derbyn aelodau i Bwyllgor yr Academi Gymreig;
 - (c) y ffordd y mae aelodau'r Academi Gymreig yn ymddwyn tuag at ei gilydd;
 - (d) y drefn mewn cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ar yr amod nad yw hwn wedi'i reoleiddio eisoes gan y cyfansoddiad hwn;
 - (e) cynnal a gwirio cofnodion;
 - (f) yn gyffredinol, pob mater o'r fath sydd yn berthnasol i reolau cymdeithasau anghorfforedig.
- (3) Mae pŵer gan Bwyllgor yr Aelodau i newid, ychwanegu at neu ddiddymu'r rheolau neu'r is-ddeddfau.
- (4) Bydd y rheolau neu'r is-ddeddfau yn gyfrwymol ar bob aelod. Bydd pob rheol neu is-ddeddf yn cydymffurfio ag unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad hwn, ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys neu'n eu diddymu.

29. Anghydfodau

Os oes anghydfod rhwng aelodau'r Academi Gymreig neu'r Bwrdd Rheoli ynghylch dilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth sy'n cael ei wneud o dan y cyfansoddiad hwn, ac nid oes modd datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r partïon mewn anghydfod geisio setlo'r anghydfod mewn ewyllys da yn gyntaf drwy gyfryngu cyn troi at gyfreitha.

30. Dehongli

Yn y cyfansoddiad, ystyr 'unigolion cysylltiedig' yw:

- (1) plentyn, rhiant, ŵyr neu wyres, mam-gu neu dad-cu, brawd neu chwaer aelod y Bwrdd Rheoli;
- (2) gŵr neu wraig neu bartner sifil aelod y Bwrdd Rheoli neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn paragraff (1) uchod;
- (3) rhywun sy'n ymgymryd â busnes mewn partneriaeth ag aelod o'r Bwrdd Rheoli neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i gynnwys i mewn paragraff (1) neu (2) uchod;
- (4) corff corfforaethol lle mae gan –
 - (a) aelodau'r Bwrdd Rheoli neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn paragraff (1) i (3) fudd sylweddol, neu
 - (b) dau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is baragraff (4) (a), gyda'i gilydd, fudd sylweddol.

25/04/2015